

Cod Ymddygiad ac Ymarfer Proffesiynol

ar gyfer cofrestreion
Cyngor y Gweithlu Addysg
(CGA)

Diweddarwyd Mai 2024

CGA

Cyngor y Gweithlu Addysg (CGA) yw'r rheoleiddiwr proffesiynol annibynnol ar gyfer ymarferwyr addysg yng Nghymru. Mae'n ceisio codi statws gweithwyr ym maes addysg a hyfforddiant drwy gynnal a hyrwyddo'r safonau uchaf o ymddygiad ac ymarfer proffesiynol er budd cofrestreion, dysgwyr, pobl ifanc, a'r cyhoedd yn gyffredinol.

Sefydlwyd CGA o dan Ddeddf Addysg (Cymru) 2014, ac mae'n rheoleiddio:

- athrawon ysgol*
- gweithwyr cymorth dysgu ysgol
- athrawon ysgol annibynnol
- gweithwyr cymorth dysgu ysgol annibynnol
- athrawon addysg bellach*
- gweithwyr cymorth dysgu addysg bellach
- penaethiaid neu uwch arweinyddion sy'n gweithio mewn sefydliadau addysg bellach
- athrawon sefydliad annibynnol arbennig ôl-16
- gweithwyr cymorth dysgu sefydliad annibynnol arbennig ôl-16
- ymarferwyr dysgu seiliedig ar waith
- ymarferwyr addysg oedolion*
- gweithwyr ieuenctid*
- gweithwyr cymorth ieuenctid*

Ei brif nodau yw:

- cyfrannu at wella safonau addysgu ac ansawdd dysgu yng Nghymru
- cynnal a gwella safonau ymddygiad proffesiynol ymysg cofrestreion yn y gweithlu addysg yng Nghymru
- diogelu buddiannau dysgwyr, pobl ifanc, rhieni, a'r cyhoedd a chynnal ymddiriedaeth a hyder y cyhoedd yn y gweithlu addysg

* mae gofyn cael cymwysterau penodol ar gyfer y categorïau cofrestru hyn. Am fwy o wybodaeth ewch i'r [tudalennau cofrestru](#).

Y Cod

Mae Rheoliadau Cyngor y Gweithlu Addysg (Prif Swyddogaethau) (Cymru) 2015, fel y'i diwygiwyd, yn pennu bod yn rhaid cyhoeddi Cod sy'n nodi'r safonau ymddygiad ac ymarfer proffesiynol a ddisgwylir gan bersonau sydd wedi'u cofrestru gyda CGA.

Mae'r Cod hwn yn nodi egwyddorion allweddol ymddygiad ac ymarfer proffesiynol da y mae cofrestreion CGA yn eu cynnal, a bwriedir iddo lywio, cynorthwyo ac arwain pawb yn eu hymddygiad a'u hymarfer dyddiol. Mae hefyd yn darparu gwybodaeth i rieni/gwarcheidwaid, y cyhoedd, a rhanddeiliaid sy'n gysylltiedig ag addysgu dysgwyr a phobl ifanc yng Nghymru, a dysgwyr a phobl ifanc eu hunain, ynghylch y safonau y gallant ddisgwyl eu derbyn gan gofrestreion.

Gall methiant ar ran cofrestrai i lynu wrth y Cod fwrw amheuaeth dros eu cofrestriad gyda CGA. Mae gan CGA rymoedd cyfreithiol i ymchwilio a gwrando ar achosion o ymddygiad proffesiynol annerbyniol, anghymhwysedd proffesiynol difrifol, a throeddau honedig yn ymwneud â chofrestreion. Ymchwilir i bob achos yn ôl ei rinweddau ei hun, gan gynnwys cyd-destun cyflogaeth (sector/ rôl ymarferydd) dan sylw. Caiff y Cod ei gymhwyso mewn modd cymesur i unrhyw ffeithiau y canfyddir eu bod wedi'u profi mewn unrhyw achos penodol.

Y pum egwyddor allweddol

Mae cofrestreion, gan gynnwys y rhai sydd wedi'u cofrestru dros dro, yn ymrwmo i gynnal egwyddorion allweddol: **Cyfrifoldeb Personol a Phroffesiynol, Unplygrwydd Proffesiynol, Cydweithio, Gwybodaeth a Dealltwriaeth Broffesiynol a Dysgu Proffesiynol.**

A. Ymddygiad Proffesiynol

1. Cyfrifoldeb Personol a Phroffesiynol

Mae cofrestreion:

- 1.1 yn cydnabod eu cyfrifoldeb personol fel model rôl a ffigur cyhoeddus, i gynnal ymddiriedaeth a hyder y cyhoedd yn y proffesiynau addysg, a hynny yn y gweithle a thu allan iddo
- 1.2 yn cynnal perthnasau gyda dysgwyr a phobl ifanc mewn modd proffesiynol, drwy:
 - gyfathrebu gyda dysgwyr a phobl ifanc yn barchus, mewn ffordd sy'n briodol iddynt

- defnyddio pob math o ddull cyfathrebu mewn modd priodol a chyfrifol, yn arbennig y cyfryngau cymdeithasol
- sicrhau bod unrhyw gysylltiad corfforol yn angenrheidiol, yn rhesymol ac yn gymesur
- cyfrannu at greu amgylchedd dysgu teg a chynhwysol drwy fynd i'r afael â gwahaniaethu, ystrydebu, a bwlio
- cynnal ffiniau proffesiynol

1.3 yn ymgysylltu â dysgwyr a phobl ifanc i annog hyder, grymuso, datblygiad addysgol a datblygiad personol

1.4 yn meddu ar ddyletswydd gofal dros ddiogelwch dysgwyr a phobl ifanc a'u llesiant corfforol, cymdeithasol, moesol, ac addysgol:

- gweithredu ar unrhyw beth a allai beryglu diogelwch neu lesiant dysgwr neu berson ifanc
- adrodd, yn unol â 4.3, unrhyw fater diogelu, neu unrhyw fater arall a allai o bosibl niweidio diogelwch neu lesiant dysgwr neu berson ifanc

1.5 yn ymwybodol o'u cyfrifoldeb personol dros iechyd, diogelwch a llesiant cydweithwyr, a throstyn nhw eu hunain

1.6 yn dangos ymrwymiad at gydraddoldeb ac amrywiaeth

2. Unplygrwydd Proffesiynol

Mae cofrestreion:

2.1 yn atebol am eu hymddygiad a'u cymhwysedd proffesiynol

2.2 yn ymddwyn yn onest, a chydag unplygrwydd, yn arbennig mewn perthynas â'r canlynol:

- cyllid ac arian yn y gweithle
- rhinweddau, profiad, a chymwysterau personol
- geirdaon, datganiadau a wneir, ac wrth lofnodi dogfennau
- asesu a thasgau'n gysylltiedig ag arholiadau
- defnyddio eiddo a chyfleusterau a ddarperir gan eu cyflogwr
- cyfathrebu gyda CGA, gan ei hysbysu am unrhyw euogfarn droseddol neu rybuddiad cofnodadwy, neu gyfyngiad a osodir ar eu hymarfer gan unrhyw gorff arall
- eu cyflogwr, ac adrodd unrhyw fater sy'n ofynnol gan delerau ac amodau eu cyflogaeth
- eu hymddygiad yn y gweithle a thu allan iddo

- 2.3 yn ymdrin â gwybodaeth a data mewn modd priodol, gan gymhwyso'r protocolau angenrheidiol yn ymwneud â chyfrinachedd, sensitifrwydd a datgelu
- 2.4 yn glynu wrth safonau ymddygiad cyfreithlon, mewn modd sy'n cyd-fynd â bod yn aelod o'r proffesiwn addysg

3. Cydweithio

Mae cofrestreion:

- 3.1 yn parchu, yn cynorthwyo, ac yn cydweithio gyda chydweithwyr, dysgwyr, pobl ifanc ac eraill i gyflawni'r deilliannau dysgu gorau
- 3.2 yn rhannu profiad a gwybodaeth i helpu eu hunain ac ymarferwyr eraill i ddatblygu a chynnal ymarfer gorau (gweler Adran B)
- 3.3 yn ceisio datblygu a chynnal perthnasau gwaith proffesiynol gyda rhieni, gwarcheidwaid, gofalwyr, a rhanddeiliaid eraill
- 3.4 yn cyfathrebu mewn modd priodol ac effeithiol gyda phob un sy'n gysylltiedig ag addysgu dysgwyr a phobl ifanc

B. Ymarfer Proffesiynol

4. Gwybodaeth a Dealltwriaeth Broffesiynol

Mae cofrestreion:

- 4.1 yn gwybod, yn defnyddio, ac yn cymryd cyfrifoldeb dros safonau proffesiynol perthnasol yn eu proffesiwn penodol drwy gydol eu gyrfa
- 4.2 yn gwybod, yn deall, ac yn cydymffurfio â pholisïau, gweithdrefnau, a chanllawiau cyfredol sy'n berthnasol i'w hymarfer
- 4.3 yn gwybod, yn deall, ac yn cydymffurfio â pholisïau, gweithdrefnau a chanllawiau diogelu cyfredol sy'n berthnasol i'w hymarfer
- 4.4 lle y bo angen, yn ceisio cymorth, cyngor, ac arweiniad, ac yn agored i adborth, gan ymateb iddo mewn modd cadarnhaol ac adeiladol

5. Dysgu Proffesiynol

Mae cofrestreion:

- 5.1 yn dangos ymrwymiad cyffredin i'w dysgu proffesiynol parhaus drwy fyfyrio am eu hymarfer a'i werthuso, gan sicrhau bod eu gwybodaeth a'u sgiliau proffesiynol yn gyfoes, a chymryd camau i wella'u hymarfer lle y bo angen

Cyhoeddi ac adolygu

Mae'r Cod ar gael yn rhad ac am ddim ac mae wedi'i gyhoeddi ar wefan CGA. Mae ar gael ar ffurf Hawdd ei Darllen, testun bras a fformatau eraill, os oes angen.

Mae'r Cod hwn yn disodli cyhoeddiad blaenorol Cod Ymddygiad ac Ymarfer Proffesiynol ar gyfer cofrestreion gyda CGA a gyhoeddwyd 1 Medi 2022. Yn unol â Deddf Addysg (Cymru) 2014, bydd CGA yn adolygu'r Cod hwn bob tair blynedd.

Mae Canllawiau Ymarfer Da CGA yn ategu'r Cod hwn, a gellir cael hyd iddynt ar wefan CGA.


Cyswllt: Priodoldeb i Ymarfer

Cyfeiriad: 9fed llawr,
Eastgate House,
35-43 Heol Casnewydd,
Caerdydd
CF24 0AB

Ffôn: 029 2046 0099

E-bost: priodoldebiymarfer@cga.cymru

Gwefan: www.cga.cymru



Gallwch weld fersiwn electronig o'r cod ar y wefan drwy sganio'r cod QR yma.